Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014 – 2016

Mai 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014 – 2016

Mai 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynnwys

**Rhagarweiniad** 1

Datganiad o ddiben 1

Nodau strategol 1

Cyflawni Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad 1

Strategaeth y Gyllideb 2

Gwerth am Arian 2

Cynnydd 2011 - 2014 2

**Y pum maes blaenoriaeth wedi'u diweddaru** 4

01.Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein strategaeth TGCh 4

02.Gwasanaethau dwyieithog ehangach 7

03.Gwell ymgysylltu â phobl yng Nghymru 9

04.Gwneud y gorau o'n hystâd 11

05.Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad 12

**Sut y byddwn yn cyflawni ac yn sicrhau llwyddiant** 14

# Rhagarweiniad

## Datganiad o ddiben

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu’r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy’n darparu’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau strategol

Nodau strategol Comisiwn y Cynulliad yw canolbwynt ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, and nid ydynt wedi newid. Ein nodau yw:

– Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

– Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

– Defnyddio adnoddau’n ddoeth

## Cyflawni Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill o'r Cynulliad hwn. Mae'n diweddaru ac yn adeiladu ar y ddogfen "Ein Cynllun i Gyflawni Strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad" a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2013.

Cyfarfu'r Comisiynwyr ar 3 Ebrill 2014 i drafod y cynnydd a'r cyflawniadau ar sail nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ers 2011, ac i rannu eu syniadau ynghylch pa bethau eraill yr oedd angen eu gwneud er mwyn iddynt fod yn fodlon eu bod wedi darparu etifeddiaeth gref cyn diddymiad y Pedwerydd Cynulliad yn 2016. Ymgorfforwyd eu casgliadau yn ein blaenoriaethau strategol i ddarparu'r cynllun strategol diwygiedig hwn ar gyfer gweddill y Cynulliad.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth diwygiedig ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi yn y Cynulliad hwn:

– Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein strategaeth TGCh

– Gwasanaethau dwyieithog ehangach

– Gwell ymgysylltu â phobl yng Nghymru

– Gwneud y gorau o'n hystâd

– Bod yn gwbl barod ar gyfer y newid i'r Pumed Cynulliad, a'r heriau newydd a ddaw

Er mwyn cyflawni’r nodau strategol, mae angen inni hefyd barhau i ddarparu’r ystod lawn o weithgareddau busnes o ddydd i ddydd i safon uchel. Mae angen i Gynlluniau Gwasanaeth ac Adolygiadau Rheoli Perfformiad a Datblygiad ddisgrifio’r gweithgareddau, y camau gweithredu a’r prosiectau y mae eu hangen i gyflawni’r gweithgareddau busnes rheolaidd yn ogystal â’r gwaith ar y pum maes blaenoriaeth. Mae gennym raglen uchelgeisiol o

newid, sydd, mewn rhai meysydd, yn gymhleth a sylweddol. Rydym yn sefydlu Rhaglen Trawsnewid Strategol i arwain a rheoli'r newid angenrheidiol i gyflawni rhai o amcanion strategol allweddol y Comisiwn.  Bydd hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu ein gwaith mewn ffordd fwy strategol a phenodol, er mwyn cyflawni pethau'n gyflym, gan gymryd i ystyriaeth ein blaenoriaethau busnes beunyddiol a phrosiectau allweddol eraill.

## Strategaeth y Gyllideb

Yn 2011, pennodd y Comisiwn strategaeth gyllidebol glir ar gyfer gwella capasiti a gallu gwasanaethau'r Cynulliad drwy fuddsoddi yn y canlynol: cymorth i'r Aelodau a'u cyfrifoldebau deddfwriaethol newydd; yr ystâd fel lleoliad ar gyfer Cymru; cyfathrebu a thechnoleg; a'r ffordd rydym yn gweithio fel corff corfforaethol effeithlon. Yn nwy flynedd olaf y Cynulliad hwn, bydd y Comisiwn yn darparu gwasanaethau cryf, costeffeithiol, ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o fewn cyllideb dynnach, gan gynllunio trosglwyddiad llyfn a phroffesiynol i'r Pumed Cynulliad.

## Gwerth am Arian

Mae gennym hanes cryf o ddarparu gwerth am arian, ac rydym wedi rhagori ar ein targed blynyddol ar gyfer pob blwyddyn o'r Pedwerydd Cynulliad hyd yma. Rydym wedi sicrhau arbedion sylweddol drwy gaffael a rheoli contractau'n gadarn, rydym wedi dod o hyd i feysydd i wneud y gorau o'n heffeithiolrwydd o ran darparu gwasanaethau, ac wedi parhau i wella ein gwybodaeth reoli.  Hyd yn hyn, cawsom y rhan fwyaf o'n harbedion drwy reoli swyddi gwag, ac mae ein canran o arbedion eraill yn cynyddu'n raddol (20% yn 2013-14). Yn y blynyddoedd i ddod, rydym yn disgwyl i hyn barhau i fod yn her ac mae angen i ni ddatblygu ein gwybodaeth reoli fwy fyth i helpu i fwrw ymlaen â hyn.

## Cynnydd 2011 - 2014

Mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud hyd yma yn y Cynulliad hwn, a bu llwyddiannau sylweddol ar draws pob un o'n nodau strategol. Mae rhai o'r uchafbwyntiau i'w gweld yn y diagram canlynol.

# Ein prif lwyddiannau o gymharu â'n nodau strategol

## 2011-2012 | 2012-2013 | 2013-2014

### Darparu cefnogaeth Seneddol o'r radd flaenaf

**Cymorth Seneddol**
-DPP i Aelodau a'u staff cymorth
-Arolwg o'r Aelodau a'u staff cymorth

**Busnes y Cynulliad**
-System bwyllgorau newydd
- Newidiadau i weithdrefnau'r Cyfarfod Llawn
-Cwestiynau arweinwyr a dadleuon Aelodau unigol

**Gwasanaethau dwyieithog**
-Deddf Ieithoedd Swyddogol 2012

**Pwyllgorau'r Cynulliad**
-adolygiad o'r cymorth
-prif ffrydio materion yr UE
-DPP yn canolbwyntio ar graffu a deddfwriaeth

**Gwasanaethau Seneddol**
-Adnewyddu'r Senedd
-Ymateb i'r adborth yn yr arolwg o'r Aelodau

**Cynulliad Dwyieithog**
-Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol
-Cyfieithu peirianyddol Microsoft

**Busnes Seneddol**
-Pwyllgorau o'r radd flaenaf
-Ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Fusnes
-Ehangu'r gwasanaethau cyfreithiol
-Craffu ariannol – DPP
-Effaith adroddiad Silk
-Mewnbwn rheolaidd gan arbenigwyr yr UE i'r Pwyllgorau

**Gwasanaethau i Aelodau**
-Dangosyddion perfformiad allweddol
-Y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol
-Newidiadau TGCh – BYOD, cysylltiad diwifr.

### Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

**Ymgysylltu â phobl Cymru**
-Allgymorth ac ymgysylltu â phwyllgorau
-Y 1,000,000fed ymwelydd â'r Senedd
-Cynllun Cydraddoldeb 2012-16

**Digwyddiadau proffil uchel**
-Yr Agoriad Brenhinol
-Dathliadau Undeb Rygbi Cymru

**Ymgysylltu**
-ymhlith 100 uchaf Stonewall
-Hyfforddiant cydraddoldeb i holl staff y Comisiwn
-ymhlith 10 uchaf cyflogwyr y DU sy'n ystyriol o deuluoedd

**Hyrwyddo'r Cynulliad**
-Ymgyrch menywod mewn bywyd cyhoeddus
-Democratiaeth ar waith
-Ysgol ffilm Casnewydd
-Digwyddiadau croesawu'r arwyr Olympaidd a Pharalympaidd
-Cynnal CALRE
-Lansio siop y Senedd a'r Siop Goffi
-Gwaith sylweddol gan Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau yr UE
-Mae'r Llywydd/Cadeiryddion Pwyllgorau yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau o Senedd Ewrop a chynrychiolwyr Llywyddiaeth yr UE

**Deall y Cynulliad**
-Adolygiad ymgysylltu â phobl ifanc
-Mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol

**Proffil y Cynulliad**
-Y Llywydd yn cael ei hurddo'n Fonesig
-Siarter 'Action on Hearing Loss'
-Rhif 11 ymlith 100 uchaf Stonewall yn y DU
-Porthol menywod mewn bywyd cyhoeddus a chynllun datblygu
-Cawcws menywod mewn democratiaeth

### Defnyddio adnoddau'n ddoeth

**Strategaeth**
-Comisiwn newydd
-Nodau strategol
-Effeithiolrwydd y Comisiwn

**Adnoddau**
-Strategaeth gyllideb 3 blynedd
-Pwyllgorau Archwilio a Thaliadau
-Diogelu enw da drwy'r Penderfyniad newydd

**Buddsoddi**
-Bwrdd Buddsoddiadau
-Strategaeth TGCh
-Trosglwyddo TGCh
-Lefel 5 y Ddraig Werdd

**Meithrin capasiti**
-Penodi cynghorwyr annibynnol
-Dau gyfarwyddwr newydd

**Pobl a lleoedd**
-Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl
-Cynllun Prentisiaeth
-Gwella'r ystâd
-Penderfyniad parodrwydd TGCh

# Y pum maes blaenoriaeth wedi'u diweddaru

## 01. Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, gan gynnwys drwy effaith camau nesaf ein strategaeth TGCh

**Nod strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**

**Bu'r cynnydd yn sylweddol. Ers 1999, mae'r hyder yng ngwaith y Cynulliad wedi tyfu'n aruthrol. Dylem fod yn falch o'n dull gweithredu, ac rydym yn batrwm i eraill ei ddilyn. Wedi dweud hynny, mae llawer rhagor i'w wneud, ac mae ambell her fawr inni yn ystod y ddwy flynedd nesaf i ddarparu cymorth cyson a chryf sy'n cwrdd yn llawn ag anghenion Aelodau unigol a Phwyllgorau'r Cynulliad, er mwyn eu galluogi i weithredu fel Senedd ragorol ar gyfer Cymru.**

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| **Pwyllgorau**<br><br>Sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i Bwyllgorau yn ymwreiddio'n drylwyr ym mhob agwedd ar ein cymorth, gan gynnwys:<br><br>– sicrhau bod y cymorth yr ydym yn ei ddarparu wedi ei asio'n dynn, ac yn cael ei yrru gan y blaenoriaethau a nodwyd gan yr Aelodau;<br><br>– gwasanaethau hyblyg sydd wedi'u teilwra a'u darparu mewn modd sy'n adlewyrchu'r gofynion ar yr Aelodau ac sydd yn eu galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'u hamser;<br><br>– darparu gwasanaeth dwyieithog, gan gynnwys darparu deunydd briffio ysgrifenedig ar gyfer yr Aelodau yn Gymraeg a Saesneg yn ôl eu hanghenion, fel mater o drefn yn yr holl bwyllgorau, gan ganiatáu i'r Aelodau weithredu yn yr iaith o'u dewis hwy (gweler hefyd nod 2 isod);<br><br>– lefelau uchel o arbenigedd proffesiynol hyderus a gwybodaeth o ansawdd uchel, hawdd ei chael, ac amserol;<br><br>– sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwn yn rhai integredig, ac nad oes gennym ddulliau ynysig o weithio, neu arferion mewnol nad ydynt yn helpu neb;<br><br>– llunio cynllun datblygiad proffesiynol parhaus ehangach ar gyfer cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau; a<br><br>– gweithio gyda'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes i ddarparu opsiynau ar gyfer gwella prosesau a'r cymorth ar gyfer craffu a deddfwriaeth, i'w gweithredu ar ôl mis Mai 2016. | Erbyn hydref 2014 |

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
| --- | --- |
| **y Cyfarfod Llawn**<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddefnyddio technoleg yn y Siambr, bydd y cyfarpar TGCh yn cael ei ailosod yn raddol lle bo modd, a bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud yn ystod toriad yr haf 2015, yn amodol ar gyfyngiadau peirianneg. | Yn raddol lle bo modd - newidiadau mawr yn nhoriad yr haf 2015 |
| Byddwn yn adolygu ein system cymorth busnes ar gyfer y Cyfarfod Llawn, boed yn gyflwyno busnes, cynnal y Cyfarfod Llawn neu gofnodi trafodion y Cyfarfod Llawn, a byddwn yn manteisio ar lwyfannau TGCh newydd er mwyn gweithio'n glyfrach a gwneud ein gwybodaeth yn haws i'w chael er mwyn ein galluogi i wasanaethu anghenion yr Aelodau ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn well. | Erbyn diwedd mis Ebrill 2016 fan bellaf. |
| **Cofnodi Trafodion**<br><br>Byddwn yn cynnal adolygiad o'r ffordd y byddwn yn cofnodi trafodion y Cynulliad, er mwyn diwallu anghenion yr Aelodau a rhanddeiliaid yn well. Byddwn yn ymchwilio i wahanol ffyrdd o weithio a defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau; byddwn yn asesu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio cynnyrch technolegol mewn gwahanol ffyrdd, gan adeiladu ar y cynnydd o ran Senedd.TV a gwneud gweithgareddau'r Cynulliad yn fwy tryloyw ac agored ac yn haws i ymgysylltu â hwy yn y byd digidol. | Erbyn mis Mai 2015 |
| **gweithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth**<br><br>Byddwn yn:<br><br>– adeiladu ar gryfderau ein perthynas ag Aelodau'r Cynulliad ac yn ystyried ymhellach sut i feithrin y berthynas broffesiynol fwyaf effeithiol ag Aelodau'r Cynulliad yn seiliedig ar gyd-barch a dealltwriaeth glir o'u pwysau a blaenoriaethau;<br><br>– buddsoddi amser ac ymdrech i gyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwyddiannau'r Comisiwn, ac i sicrhau ein bod yn deall anghenion Aelodau'r Cynulliad ac yn ymateb iddynt;<br><br>– rhoi cyfle i'r staff gael gwell dealltwriaeth o anghenion Aelodau'r Cynulliad;<br><br>– adeiladu ar gysylltiadau presennol a gweithio'n agosach gyda staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion hwy a'n darpariaeth ni wedi'u hasio mor effeithiol ag y bo modd. | Erbyn mis Mawrth 2016 |

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| **darparu arbenigedd cyfreithiol** | |
| Parhau â’r gweithgareddau presennol i feithrin gallu mewn drafftio Biliau anllywodraethol, gan gynnwys:<br>– cadw'r trefniant presennol gyda Daniel Greenberg i hyfforddi cyfreithwyr y Comisiwn i ddrafftio'n ddeddfwriaethol yn y gweithle, a darparu gwasanaethau drafftio ei hun pan fo angen er mwyn cwrdd â therfynau amser yr Aelodau;<br>– mynd ati i chwilio am gyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau drafftio, yn enwedig secondiadau yn ystod cyfnodau pan na fydd y Cynulliad mor brysur;<br>– anelu at sicrhau bod dau gyfreithiwr yn y Comisiwn yn fedrus iawn o ran drafftio deddfwriaethol erbyn diwedd y Pumed Cynulliad;<br>Hyfforddi a rhannu gwybodaeth yn fewnol er mwyn gwella sgiliau drafftio y rhan fwyaf o gyfreithwyr eraill y Comisiwn, a defnyddio'r systemau presennol yn effeithlon (ee y feddalwedd bresennol ar gyfer drafftio deddfwriaeth). | Erbyn mis Ebrill 2016 |
| **datblygiadau TGCh eraill** | |
| Y cynllun i drosglwyddo'r gwasanaeth TGCh i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2014.<br>Wedi hynny, y Comisiwn fydd yn gwbl gyfrifol am ddarparu gwasanaethau TGCh, a bydd wedi dod allan o Atos yn llwyr ac wedi gwahanu oddi wrth Lywodraeth Cymru. | Haf 2014 |
| Gwefan newydd y Comisiwn fydd y cymhwysiad cyntaf i gael ei gyflwyno gan ddefnyddio Microsoft SharePoint - y llwyfan y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer datblygu a darparu cymwysiadau busnes y Cynulliad yn y dyfodol. | diwedd mis Medi 2014 |
| Bydd y gwaith sylweddol o adnewyddu a disodli seilwaith TGCh y Comisiwn yn gyflawn, a bydd y Comisiwn yn y sefyllfa briodol i ddarparu gwasanaeth TGCh llawer gwell a mwy hyblyg.<br>Un o'r canlyniadau penodol fydd gwella'r gwasanaethau i swyddfeydd etholaeth a swyddfeydd cartref, ee trwy ail-ddarparu cysylltiadau rhyngrwyd | Erbyn diwedd mis Mawrth 2015 |
| Byddwn yn caffael ac yn gweithredu system deleffoni newydd. | Erbyn diwedd mis Mawrth 2015 |

## 02. Gwasanaethau dwyieithog ehangach

**Nod strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**

**Mae'r gallu i gymryd rhan yn ddirwystr yn y naill iaith a'r llall mewn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn ddyhead pwysig i'r Comisiwn. Dylai pobl allu dewis a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mhob elfen o'u gwaith. Rydym ar y trywydd iawn a bu cynnydd sylweddol y llynedd. I fodloni disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd, mae angen gwneud rhagor cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Erbyn diwedd y Cynulliad hwn, byddwn wedi gweddnewid ein gwaith fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog drwy ddefnyddio technoleg, drwy sefydlu a gweithredu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, drwy edrych yn fanylach ar ein hadnoddau staffio, a thrwy ymrwymiad holl staff y Comisiwn i gyflawni'r safonau uchaf o gefnogaeth seneddol i'r Aelodau a'r cyhoedd yn y ddwy iaith.**

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| **Ieithoedd Swyddogol** | |
| Bydd y blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol oll wedi'u cyflwyno, gan gynnwys: | |
| – treialu papurau briffio dwyieithog wedi'u teilwra ar gyfer gwaith pwyllgor; | Gorffennaf 2014 |
| – darparu holl bolisïau a dogfennau adnoddau dynol yn y ddwy iaith swyddogol; | Parhaus |
| – pob aelod o staff rheng flaen (gan gynnwys contractwyr arlwyo) yn gallu cyfarch yn y ddwy iaith swyddogol; | Gorffennaf2014 |
| – dolygiad o'r hyfforddiant ieithyddol a ddarperir (gan gynnwys trefniadau contractiol) i wella a theilwra'r gwasanaethau i'r Aelodau, eu staff cymorth, a staff y Comisiwn. | Gorffennaf 2014 |
| Bydd blaenoriaethau newydd yn cael eu pennu rhwng nawr a'r Pumed Cynulliad a fydd yn ein symud ymlaen o'r feddylfryd draddodiadol mai'r prif arwydd o ddarpariaeth ddwyieithog swyddogaethol yw cyfieithu dogfennau, ee | |
| – ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud ystafelloedd cyfarfod ystâd y Cynulliad yn addas ar gyfer cyfieithu ar y pryd, hynny yw gwneud offer is-goch yn rhan barhaol ohonynt, a sicrhau bod cyfieithwyr ar y pryd ar gael, fel y gall yr Aelodau gynnal trafodaethau dwyieithog ag etholwyr, grwpiau trawsbleidiol, digwyddiadau cymdeithasol ac ati; | Mawrth 2015 |

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| – ystyried sefydlu system cyfaill (rhwng aelodau dwyieithog staff y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad) er mwyn darparu cymorth a chyngor ar weithio'n ddwyieithog; | Gorffennaf 2014 |
| – gweithredu dull clir ar draws y Cynulliad ar gyfer negeseuon e-bost dwyieithog fel y gall siaradwyr Saesneg gael gafael ar y testun Saesneg yn gyflym ac yn hawdd; | |
| – mynd â'r broses o deilwra cymorth ar gyfer papurau briffio dwyieithog gam ymhellach ar gyfer rhai Aelodau fel ein bod yn diwallu anghenion unigol sy'n amrywio o Aelod i Aelod. | |
| Bydd y sefydliad yn cael ei ystyried yn esiampl da o sefydliad dwyieithog yng Nghymru drwy: | |
| – newid amlwg yn niwylliant staff y sefydliad sy’n gweithio'n ddwyieithog fel mater o drefn; | Ebrill 2016 |
| – hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer pob aelod o staff y Comisiwn - trwy gyfuniad o e-ddysgu a darpariaeth wyneb yn wyneb; | Gorffennaf 2014 |
| – comisiynu pecyn parhaol o hyfforddiant o ran ieithoedd swyddogol; | Tachwedd 2014 |
| – parhau i ymchwilio i gyfieithu peirianyddol a thechnoleg iaith, a buddsoddi ynddynt i wella a symleiddio gweithio'n ddwyieithog; | Parhaus |
| – ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu cymorth dwyieithog ar gyfer gwaith yr Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ar y cyd â'r Swyddfa Gyflwyno, Gwasanaeth y Siambr, a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. | |

## 03. Gwell ymgysylltu â phobl yng Nghymru

**Nod strategol: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru**

**Roedd y Comisiynwyr o'r farn y bu cynnydd mawr mewn meysydd penodol.  Mae'r gwaith a wnaed i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, a'r ymgyrch menywod mewn bywyd cyhoeddus, yn enghreifftiau cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn am ymgysylltu fwy fyth â'r cyhoedd yn gyffredinol, nid dim ond â grwpiau penodol. Ledled Cymru, ac ar gyfer pob grŵp, maent yn awyddus i ni sicrhau bod pobl Cymru yn gwybod am ddiben y Cynulliad ac yn ei ddeall.**

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| Lansio ein cynllun diwygiedig ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc - yn seiliedig ar y tair egwyddor graidd o estyn allan, galluogi trafodaeth, a rhoi adborth - a recriwtio pobl sydd â sgiliau penodol ym maes gwaith ieuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc a'r tîm addysg. | Gorffennaf 2014 |
| Ystyried comisiynu adolygiad o frand y Cynulliad a gwaith marchnata a chysylltiadau cyhoeddus er mwyn gwerthu'r brand yn fwy rhagweithiol. | Rhagfyr 2014 |
| Parhau i ddatblygu digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd i sicrhau proffesiynoldeb sy'n briodol i ddemocratiaeth fodern. | Rhagfyr 2014 |
| Parhau i herio'r cyfryngau cenedlaethol ac ymgysylltu â'r cyfryngau sy'n datblygu i wella'r dulliau o adrodd ar waith y Cynulliad o dan ein hymgyrch Diffyg Democrataidd. | Ebrill 2015 |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglen cysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo'r Cynulliad yn fwy effeithiol i bobl Cymru. Byddwn yn dysgu o'n profiadau o ymgysylltu â phobl ifanc ac yn canolbwyntio ar:<br>– gyflawni ein rhaglen allgymorth busnes drwy weithio gyda chwmnïau mwyaf blaenllaw Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad;<br>– datblygu rhaglen beilot o weithdai cyn-ddeddfwriaethol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o'r broses ddeddfwriaethol, ac annog cyfranogwyr i ymgysylltu â'r broses;<br>– ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd yng ngwaith y Cynulliad trwy wahanol weithgareddau fel gwaith allgymorth mewn pwyllgorau, ymweliadau cymunedol a gwaith partneriaeth, sy'n gydnaws â'n hamcanion cydraddoldeb;<br>– cyflawni rhaglen y Cynulliad o ddigwyddiadau mawr, gan gynnwys yr ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, rhaglen ehangach o ddigwyddiadau haf a'r rhaglen i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf (gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau ym Mrwsel yn Senedd Ewrop a/neu Bwyllgor y Rhanbarthau fel rhan o raglen pum mlynedd y Rhyfel Byd Cyntaf).<br>Byddwn hefyd yn adolygu effeithiolrwydd bws y Cynulliad at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus, ac yn ystyried dulliau amgen o godi ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i waith ledled Cymru. | Rhagfyr 2014 |

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
| --- | --- |
| Rydym yn adolygu'r ffordd yr ydym yn adrodd ar ein gwaith ac yn addasu'r ffordd yr ydym yn pecynnu ac yn lledaenu gwybodaeth fel bod pethau o ddiddordeb mawr yn cael eu rhannu'n fwy eang, ac er mwyn sicrhau bod hyder a pharch yn ein gwaith. Dyma enghreifftiau:<br>– gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl ifanc, yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Bydd newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda phobl ifanc yn cael eu cefnogi drwy ddatblygu'r wefan www.dygynulliad.org yn ganolfan ar-lein i bobl gael gwybod beth sy'n digwydd yn y Cynulliad a chyfrannu at fusnes y Cynulliad;<br>– asesu'r cyfleoedd sydd ar gael i gofnodi trafodion y Cynulliad er mwyn gwneud gweithgareddau'r Cynulliad yn fwy tryloyw ac agored ac yn haws ymgysylltu â hwy yn y byd digidol;<br>– defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol - drwy'r sianelau presennol a newydd - i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a dod o hyd i leisiau newydd i gyfrannu at fusnes y Cynulliad;<br>– gweithio gyda TGCh i ail-ddylunio Senedd.TV i'w wneud yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddefnyddio. Rydym hefyd am ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr, fel newyddiadurwyr a blogwyr, i rannu ein cynnwys ar eu llwyfannau eu hunain a dod o hyd i'r wybodaeth sy'n bwysig iddynt hwy a'u hardal. Bydd cyfleuster clipio yn galluogi defnyddwyr i ddewis ac ymgorffori cwestiynau penodol, eitemau, areithiau ac ati;<br>– gwneud mwy o ddefnydd o ffurfiau gweledol fel gwybodaeth ar ffurf graffeg, a fideos, i rannu gwybodaeth.<br>Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu effaith ein cysylltiadau â'r cyfryngau, gan gynnwys ein partneriaeth newydd gyda chanolfannau cyfryngau hyperleol yng Nghymru, ac yn addasu ein strategaeth fel y bo'r angen. | Parhaus |
| Byddwn yn parhau i hyrwyddo Cymru a gwaith y Cynulliad drwy gysylltiadau eang yn yr UE ac yn rhyngwladol, gan gynnwys gwaith yn uniongyrchol ym Mrwsel a gwaith cysylltiedig yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ASEau Cymru, sefydliadau'r UE (gan gynnwys y berthynas agos â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a chynrychiolaeth Senedd Ewrop yn y DU), cymryd rhan yn CALRE, Fforwm EC yn y DU, BIPA a CPA; drwy gysylltiadau dwyochrog eraill â seneddau, cynulliadau deddfwriaethol, a rhwydweithiau a chynrychiolwyr yr UE.<br>Byddwn yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith hwn, gan gynnwys cymryd rhan yng nghynadleddau'r UE/cynadleddau rhyngwladol a fforymau eraill. Byddwn yn ystyried defnyddio ein cysylltiadau yn y DU a'r UE, a'n cysylltiadau rhyngwladol i feincnodi gwaith y Cynulliad, er mwyn ein galluogi i gyflawni'n ystyrlon ar yr amcan o sefydlu pwyllgorau o'r radd flaenaf. | Parhaus |
| Byddwn yn archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill yng Nghymru (a thu hwnt) ar fentrau sy'n hyrwyddo democratiaeth ddatganoledig, fel ffordd o godi proffil gwaith y Cynulliad yng Nghymru yn ogystal â bod yn gyfle i ddysgu/meincnodi ar y cyd.<br>Byddwn yn cyfarfod â'r Cyngor Prydeinig i edrych ar gyfleoedd ariannu posibl o dan raglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd. | Gorffennaf 2014 |

## 04. Gwneud y gorau o'n hystâd

**Nod strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth**

**Unwaith eto, cafwyd llwyddiannau sylweddol, ac mae gan Ystâd y Cynulliad eisoes ddelwedd broffesiynol sydd wedi gwella'n aruthruol. Yr heriau allweddol nesaf fydd cynaliadwyedd, a sicrhau bod swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth o safon uchel yn gyson.**

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| Rydym wedi gostwng 32% ar ein hallyriadau carbon (o gymharu â 2008/09), a'r nod yw ei ostwng 40% erbyn 2015. Rydym yn parhau'n obeithiol bod y cynlluniau presennol yn golygu y byddwn bron â chyrraedd y targed o 40% erbyn 2015. | Rhagfyr 2015 |
| Cyflwyno map llwybr lleihau carbon i'r Comisiwn ym mis Mehefin 2014 a fydd yn nodi opsiynau yn y dyfodol (i fynd â ni y tu hwnt i 2015) i'r Comisiwn eu hystyried wrth gefnogi ei ymrwymiad i sicrhau ein bod yn niwtral o ran carbon. | Mehefin 2014 |
| Datblygu rhaglen fuddsoddi dymor hir (rhaglen dreigl) wedi ei blaenoriaethu ar gyfer yr ystad, a'r rhaglen honno wedi'i chymeradwywyo gan y Bwrdd Buddsoddi. Bydd hyn yn sicrhau bod ein hystâd yn parhau i fod yn addas at y diben, yn adlewyrchu sefyllfa'r Cynulliad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn rhoi lle canolog i'r Senedd a'r Pierhead ym mywyd cyhoeddus Cymru. | Gorffennaf 2014 |
| Cyflwyno cynigion (trwy ddefnyddio arbenigedd allanol) i wella profiad ein hymwelwyr, er mwyn: ategu strategaeth ymgysylltu ehangach y Comisiwn; gwneud defnydd priodol o TGCh; sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwn yn berthnasol, yn ddiddorol ac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd; sefydlu gwell cyfleoedd manwerthu yn siop y Cynulliad. | Hydref 2014 |
| Rhoi sylw i faterion o ran swyddfeydd yr Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth, gan gynnwys:<br>– adolygu'r opsiynau ar gyfer gwneud swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn seinglos;<br>– sicrhau bod yr holl ddodrefn yn swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn addas at y diben;<br>– ystyried opsiynau creadigol ar gyfer ailwampio'r cyfleusterau swyddfa ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn y dyfodol. | Mawrth 2015 |

## 05. Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad

**Cynllunio at y dyfodol, gan gynnwys trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad, yr Agoriad Brenhinol, y Bwrdd Taliadau, strategaethau cyllidebol y dyfodol, newid cyfansoddiadol y dyfodol.**

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
| --- | --- |
| Bydd pecyn y Bwrdd Taliadau o benderfyniadau o ran cydnabyddiaeth a chymorth ariannol yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad ar gael erbyn gwanwyn 2015. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Taliadau i'w wneud yn ymwybodol o flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer datblygiad strategol y Cynulliad, gan adlewyrchu materion o bwys i Aelodau'r Cynulliad, fel cyfathrebu lleol â'u hetholwyr. | Gwanwyn 2015 |
| Bydd ein hymateb i unrhyw newid yn sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad yn drylwyr ac wedi'i gynllunio'n dda. Byddwn wedi sefydlu arbenigedd a chapasiti yn barod ar gyfer arfer pwerau a chyfrifoldebau newydd. Nid ymateb yn unig y byddwn - byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, ac yn sicrhau bod buddiannau'r Cynulliad yn cael eu hyrwyddo i ddylanwadu ar y newid yn nhirwedd gyfansoddiadol y DU a datganoli pwerau newydd i'r Cynulliad. | Erbyn Gwanwyn 2016 |
| Byddwn wedi adolygu'r holl feysydd allweddol fel ein bod yn barod i roi i'r Comisiwn nesaf a'r Pwyllgor Busnes y cyngor gweithredol a gweithdrefnol sydd ei angen arnynt i fwrw iddi o'r dechrau'n deg. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith bydd y Pwyllgor Busnes yn ei wneud o ran adolygu meysydd penodol o weithdrefnau a Rheolau Sefydlog. | Ebryn mis Ebrill 2016 |
| Bydd y cynlluniau ar gyfer sefydlu'r Pumed Cynulliad a datblygiad proffesiynol parhaus yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion Aelodau Cynulliad unigol, a bydd hyfforddiant gorfodol yn cael ei drefnu ar gyfer deiliaid swydd. | Ebryn mis Ebrill 2016 |
| Caiff opsiynau eu datblygu ar gyfer cyflwyno arferion neu draddodiadau newydd i drafodion y Cynulliad, a brand a symbolaeth priodol i gyfleu awdurdod Swyddfa'r Llywydd. | |
| Bydd y penderfyniadau am yr Agoriad Brenhinol yn cael eu dirprwyo i swyddogion a'r Llywydd. | |
| Mae'r Comisiwn yn dymuno cyhoeddi Adroddiad Etifeddiaeth, gan gynnwys syniadau y gall Comisiwn y Pumed Cynulliad eu hystyried ar gyfer y dyfodol. | |

| Beth sydd angen ei wneud | Pryd |
|---|---|
| **Rheolaeth ariannol ar draws y sefydliad** | |
| Byddwn yn hwyluso proses esmwyth o drosglwyddo i'r Comisiwn nesaf drwy fod â strategaethau yn eu lle ar gyfer darparu adnoddau yn y Pumed Cynulliad, gan gynnwys:<br>– cynllunio'r gweithlu a chapasiti yn ddigon buan i ddarparu'r sgiliau priodol, yn y lle priodol, ar yr adeg briodol, gyda cyn lleied o gostau â phosibl;<br>– gwella'r broses o arfarnu opsiynau trwy ddadansoddi cost y lefelau gwasanaeth a'r galw amdano;<br>– pwysleisio gwerth am arian i ddangos sut yr ydym yn darparu mwy gyda llai a dangos sut y mae'r buddiannau a wireddwyd yn cael eu rheoli, eu monitro a'u hadlewyrchu mewn cyllidebau;<br>– parhau i fod yn dryloyw, a bod yn glir ynghylch sut y gwariwyd ein cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad;<br>– pwysleisio ein hanes o wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy alldro ariannol, targedau dangosyddion perfformiad allweddol, a chynllunio hyblyg. | Ebryn mis Ebrill 2016 |

## Sut y byddwn yn cyflawni ac yn sicrhau llwyddiant

Mae gennym enw da am sicrhau perfformiad o ansawdd uchel. Mae ein meysydd blaenoriaeth wedi'u cynllunio i sicrhau bod hynny'n parhau a'n bod yn bodloni disgwyliadau Aelodau, y staff a'r cyhoedd.

Mae'r ffordd yr ydym yn gwneud ein swyddi hefyd yn bwysig iawn.  Drwy ein gwaith, disgwylir i bob un ohonom:

– weithredu gan roi sylw llawn i'n cyfrifoldebau ym maes cydraddoldeb, gan barchu pawb a thrin pawb yn deg;

– darparu pob agwedd ar gyfrifoldebau'r Comisiwn yn gyflym, gydag arbenigedd proffesiynol ac ethos gwasanaeth cadarn;

– gosod safonau uchel a chadw ein haddewidion;

– bod yn agored a thryloyw, gwneud ein hunain yn agored i graffu manwl o bob tu, a darparu tystiolaeth y gellir ei mesur o'r hyn a gyflawnwyd gennym;

– dangos ein hymrwymiad gwirioneddol i ddemocratiaeth seneddol yng Nghymru a'n balchder yn y Cynulliad.

Caiff Cynlluniau Gwasanaethau eu llunio bob blwyddyn ac mae ganddynt gysylltiad uniongyrchol â chyflawni nodau strategol y Cynulliad. Maent yn cynnwys ystyried y risgiau o ran cyflawni'r amcanion yn ogystal â chyfleoedd i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy gydweithio â gwasanaethau eraill.  Maent yn sail i ddatblygu adolygiadau rheoli a datblygu perfformiad unigolion fel bod pawb yn deall sut y mae eu hamcanion hwy yn cyd-daro â nodau ac amcanion y sefydliad.

**Mai 2014**